Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



Lansiad Children's Laureate Wales yn Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî, Casnewydd     Llun © Camera Sioned | Llenyddiaeth Cymru

# Cynorthwyydd Cyfathrebu a Marchnata

Cytundeb penodol 6 mis, llawn amser (37 awr), i ddechrau cyn gynted â phosib

**Cyflog:** £20,000 - £23,000 pro rata

**Lleoliad:** Caerdydd

**Dyddiad cau:** Dydd Mercher 6 Tachwedd, 5.00 pm   **Cyfweliadau:** Dydd Llun 18 Tachwedd 2019

---

## Llenyddiaeth Cymru - Amdanom ni

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Rydym yn gweithio i **ysbrydoli cymunedau**, **datblygu awduron**, a **dathlu diwylliant llenyddol Cymru**.

Rydym yn un o wyth o **Gwmnïau Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Cymru** ac yn **aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru** sydd hefyd yn cynnwys Cerddorfa Genedlaethol y BBC, Ffilm Cymru Wales, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, National Theatre Wales, Theatr Genedlaethol Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru a Opea Cenedlaethol Cymru. Rydym yn yn **gweithio yn Gymraeg,**

**Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru**. Lleolir ein swyddfeydd yn **Llanystumdwy** ac yng **Nghaerdydd**. Ein noddwr yw **Syr Phillip Pullman**.

---

**Diwrnod ym mywyd Cynorthwyydd Cyfathrebu a Marchnata Llenyddiaeth Cymru**

Yn ystod diwrnod gwaith arferol byddwch yn amldasgio; o gydlynu cynnwys digidol i'r wefan a chyfryngau cymdeithasol, i waith dylunio, cyfieithu ag ysgrifennu creadigol. Byddwch hefyd yn cydlynu cynlluniau hyrwyddo a marchnata, cylchlythyron a diweddariadau cyfathrebu mewnol.

Ar rai dyddiau byddwch yn cefnogi'r Rheolwr Cyfathrebu gyda chynllunio creadigol a datblygu mentrau cyfredol a newydd. Byddwch hefyd yn cydlynu gweithgareddau a digwyddiadau ac yn cefnogi'r tîm ehangach gyda phrif brosiectau'r sefydliad.

Bydd y Cynorthwyydd yn delio ag ymholiadau cyffredinol ac yn cynrychioli Llenyddiaeth Cymru mewn cyfarfodydd ac mewn cyfleoedd rhwydweithio ar draws y sector lenyddol a chelfyddydol. Mae llawer o'r gwaith yn gofyn am feddwl dyfeisgar, y gallu i roi sylw i fanylder, a sgiliau da gyda phobl.

Rydym yn dîm o staff positif, ymroddedig a bywiog sy'n gweithio'n greadigol mewn dwy swyddfa yng Nghaerdydd a Llanystumdwy.

## Am y Rôl

Bydd y Cynorthwyydd Cyfathrebu a Marchnata yn gweithio o'n swyddfa yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Byddwch yn gyfrifol am **gydlynu cyfryngau cymdeithasol** Llenyddiaeth Cymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â **chynnwys digidol** i'r wefan gyda'r **nod o gynyddu proffil a chyrhaeddiad y sefydliad**.

Mae'r rôl yma yn **cynorthwyo ac yn cefnogi rhaglen o weithgaredd blynyddol y sefydliad** gan gynnwys trefnu, **marchnata, ysgrifennu copi** a **datganiadau i'r wasg** yn ogystal â chydlynu digwyddiadau ac ymgysylltu ag awduron a phartneriaid allweddol.

Bydd y Cydlynydd hefyd yn **cefnogi datblygiadau a diweddariadau i Restr Awduron Cymru** yn ogystal ag arwain ar greu, a chydlynu, cynnwys ar gyfer **cylchlythyron mewnol ac allanol** y sefydliad.

**Bydd y Cydlynydd Marahcnata a Chyfathrebu yn:**

- Creu a chyflawni cynllun Cyfathrebu a Marchnata ar gyfer Rhwydweithiau Cymdeithasol Llenyddiaeth Cymru
- Arwain ar gydlynu cynnwys newydd, cyffrous a chyfredol i Rwydweithiau Cymdeithasol a gwefan y sefydliad
- Ysgrifennu, golygu, cyfieithu a phrawf ddarllen copi a chynnwys digidol yn y Gymraeg ac yn Saesneg, megis straeon newyddion a datganiadau i'r wasg
- Gwaith dylunio i hyrwyddo gweithgareddau a phrosiectau gan ddefnyddio rhaglenni megis Adobe Photoshop a Canva
- Cefnogi'r Rheolwr Cyfathrebu gyda materion yn ymwneud â'r cyfryngau
- Cefnogi datblygiadau i; a chynnwys newydd Rhestr Awduron Cymru
- Cynorthwyo cydweithwyr wrth drefnu, hyrwyddo a chyfathrebu gweithgareddau, amcanion ac effaith y sefydliad
- Gwerthuso a monitro effaith gweithgareddau a chynnwys digidol
- Adnabod prosiectau a mentrau newydd yn unol â gweledigaeth strategol a chynllun gweithgaredd Llenyddiaeth Cymru
- Unrhyw dasgau eraill yn ôl y gofyn

Yn atebol i'r:

- Rheolwr Cyfathrebu

Addasrwydd ar gyfer y rôl

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar y sgiliau hanfodol, y profiad a'r nodweddion personol canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg ardderchog, yn ysgrifenedig a llafar, a'r gallu i gyfieithu o un iaith i'r llall
- Y gallu i gydlynu ac ysgrifennu copi e.e. datganiadau i'r wasg a straeon newyddion
- Y gallu i weinyddu a chreu cynnwys ar gyfer rhwydweithiau cymdeithasol
- Profiad neu ymwybyddiaeth o'r maes marchnata a/neu gysylltiadau cyhoeddus
- Y gallu i gydlynu prosiectau, gweithgareddau neu ddigwyddiadau
- Sgiliau trefnu rhagorol, a'r gallu i roi sylw i fanylder a'r gallu i weithio dan bwysau
- Y gallu i feddwl yn greadigol ac agwedd bositif at gydweithio
- Hyblygrwydd i weithio oriau anghymdeithasol yn achlysurol

Mae trwydded yrru lawn a mynediad at gar hefyd yn ddymunol.

---

Sut i wneud cais

1. **Darllenwch** y swydd ddisgrifiad a'r rhestr addasrwydd uchod yn ofalus. Yn ogystal, darllenwch Gynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2019-2022 yma.

2. **Ysgrifennwch lythyr cais** nad yw'n fwy na 2 dudalen A4 **neu greu cais fideo** dim hirach na 5 munud (mae'r ddau fformat yn dderbyniol ac o werth cyfartal). Rhowch wybod i ni **pam** fod diddordeb gennych yn y swydd, a sut ydych chi'n gymwys i gyflawni gofynion y swydd hon, e.e. oes gennych brofiad neu gymwysterau, neu ddiddordeb penodol mewn elfennau ohoni?

3. Anfonwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org erbyn **5.00 pm ar ddydd Mercher 6 Tachwedd 2019**:

   - Eich llythyr neu gais fideo;
   - Eich CV (heb fod yn fwy na thair tudalen A4) a manylion dau ganolwr sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Byddwn ond yn cysylltu â chanolwyr ar ôl i gynnig o gyflogaeth gael ei dderbyn;
   - Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru (ar gael yma).

Beth fydd yn digwydd wedyn?

Byddwn yn asesu'r ceisiadau, ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus am gyfweliad yn swyddfa Llenyddiaeth Cymru ym Mae Caerdydd ar ddydd Llun 18 Tachwedd 2019. Bydd tri pherson ar y panel cyfweld yn cynrychioli staff a Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru. Bydd tasg greadigol yn dilyn y cyfweliad, a bydd canlyniad y dasg yn cael ei hasesu ochr yn ochr â'r cyfweliad. Er yn gyfweliad ffurfiol, byddwn yn ceisio sicrhau fod pob ymgeisydd yn gyffyrddus â'r broses gyfweld, ond os yw'r broses yn peri pryder i chi, gadewch i ni wybod o flaen llaw, a gallwn drefnu sgwrs neu gyfarfod anffurfiol mewn lleoliad o'ch dewis gyda Branwen Llewellyn, Rheolwr Cyfathrebu, cyn y cyfweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod y swydd o flaen llaw, neu i ofyn am ragor o wybodaeth. Ffoniwch 020 2047 2266 i siarad â Branwen Llewellyn neu e-bostiwch yn uniongyrchol Branwen@llenyddiaethcymru.org

Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr oll â chanlyniad y cyfweliadau erbyn dydd Mercher 20 Tachwedd ar yr hwyraf.

---

## Ein polisi recriwtio

Mae Llenyddiaeth Cymru yn rhan o raglen Weston Jerwood Creative Bursaries, sy'n cefnogi mudiadau celfyddydol yn eu hymdrechion i ehangu eu hagwedd tuag at recriwtio a datblygu talent amrywiol. Rydym wedi ymrwymo at groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd, sy'n cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail cryfder potensial. Os hoffech ymgeisio am y swydd hon, ond yn ansicr os oes profiad digonol gennych, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.

---

*Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig ac mae'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.*